Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
University Health Board

# Gwybodaeth i Gleifion

# Pengamedd Cyhyrol Cynhenid ar yr Ochr Dde

# Gwasanaeth Ffisiotherapi

---

**Beth yw e?**

Mae'r gair 'torticollis' (pengamedd) yn dod o'r gair Lladin am "gwddf wedi'i droi" Mewn babi ifanc, mae hyn oherwydd ffibrosis (neu galedu) mewn un o'r cyhyrau hir yn y gwddf (y cyhyr sternocleidomastoid) ar ochr dde ei wddf. Dyma'r cyhyr hir sy'n mynd o'r benglog ychydig y tu ôl i'r glust ar letraws i lawr i flaen y gwddf. Mae wedi'i gysylltu â phont yr ysgwydd a'r sternwm (asgwrn y frest) Nid yw union achos pengamedd yn hysbys.

**Beth sy'n digwydd i gyhyr?**

Mae caledu yn ymddangos yn y cyhyr, fel arfer o fewn wythnosau cyntaf bywyd. Mae'n bosibl y bydd y caledu hwn yn ehangu dros y mis nesaf. Ar ôl tri neu bedwar mis mae fel arfer yn diflannu. Os na chaiff ei drin, mae'n bosibl y bydd y cyhyr yn byrhau ac yn peri i'r pen ogwyddo a chyfyngu ar symudiadau'r gwddf.

Mewn achosion mwy difrifol gellir effeithio ar siâp y pen a'r wyneb. Fodd bynnag, os caiff ei reoli'n gynnar mewn bywyd gyda chyngor gan ffisiotherapydd, dylai'r cyhyr wella. Yna dylai'r babi fod yn gallu dal ei ben/ei phen yn syth a'i droi yr un modd i'r ddau gyfeiriad.

**Sut mae'n cael ei drin?**

- Nodau'r driniaeth yw ymestyn y cyhyr tynn a helpu cyhyrau'r gwddf i weithio'n normal.
- Bydd y ffisiotherapydd yn dangos i chi sut i ymestyn y cyhyr tynn yn dyner sawl gwaith y diwrnod.
- Mae'n bwysig bod y babi wedi'i fwydo ac yn hapus pan fydd yn gwneud yr ymarferion ymestyn, a bod y babi a'r rhiant yn ymlacio. Ni fydd y driniaeth yn niweidio'r babi, ond efallai bydd yn anghyfforddus a gallai ef/hi brotestio am gael ei ddal yn llonydd. Mae'n bosibl y bydd canu yn ystod yr ymarferion ymestyn yn helpu.
- Gwnewch y driniaeth gan ddal y babi'n ddiogel ar arwyneb gwastad.

**Triniaeth ar gyfer Pengamedd DDE**

Mae eich babi yn tueddu i ddal ei wddf/ ei gwddf gyda'r glust dde i lawr at yr ysgwydd dde, gan droi i edrych i'r chwith. Mae hyn oherwydd tyndra yn y cyhyr

sternocleidomastoid yn ochr dde y gwddf.  Mae angen annog y babi i ddal ei ben/ ei phen yn syth ac edrych tuag at y dde, fel isod:



**Ymarferion Ymestyn**

Daliwch bob ymarfer ymestyn am ______eiliad, fel y dangoswyd gan eich Ffisiotherapydd, a gwnewch hynny _____gwaith.  Gwnewch bob tro y byddwch yn newid cewyn os yw'n bosibl (neu o leiaf 4 gwaith y dydd).

**Ymarfer Ymestyn 2 - Troi i'r ochr dde**

Rhowch eich babi i orwedd ar ei gefn/ei chefn a rhoi ei ben/ei phen yn syth (nid yn gogwyddo i lawr tuag at y glust dde).  Anogwch ef/hi i droi ei ben/ei phen tuag at y dde i edrych ar rywbeth (e.e. tegan swnllyd).  Rhowch un o'ch dwylo ar ei frest/ei brest (nid ar yr ysgwydd yn unig) er mwyn atal y corff rhag troi. Rhowch eich llaw arall ar ochr chwith pen y babi a defnyddio pwysau ysgafn i'w helpu i droi ychydig yn fwy tuag at y dde.  Efallai y bydd yn ddefnyddiol canu i'ch babi wrth wneud hyn.



Neu: Eisteddwch gyda'ch pengliniau yn cyffwrdd â'r soffa.  Rhowch eich babi ar ei ochr/ei hochr chwith gyda'r pen yn gorffwys ar y soffa a'r corff ar eich côl.  Daliwch yr ysgwyddau a throi ei gorff/ei chorff yn araf iawn at y bol.



**Ymarfer Ymestyn 1 - Gogwyddo i'r ochr chwith**

Rhowch ben eich babi yn dyner yn y canol (cystal ag y gallwch).  Rhowch un llaw mewn siâp cwpan a'i rhoi ar ben y babi.  Rhowch eich llaw arall ar yr ysgwydd dde a'i chadw'n llonydd. Canwch neu siaradwch â'ch babi er mwyn ei annog i edrych ar eich wyneb. Gogwyddwch ben y babi i'r chwith, fel bod y glust chwith yn mynd tuag at yr ysgwydd chwith.



Neu: Eisteddwch gyda'ch pengliniau yn cyffwrdd â'r soffa.  Rhowch eich babi ar ei ochr/ei hochr dde gyda'r pen yn gorffwys ar y soffa a'r corff ar eich côl.  Daliwch ysgwyddau'r babi a chodi ei gorff/ei chorff i fyny'n araf iawn.



**Gweithgareddau Eraill**

1. Rhowch gwtsh i'ch babi fel bod ei ben/ei phen yn troi tuag at y dde.



2. Anogwch eich babi i droi ei ben/ei phen i'r dde i edrych ar bobl, a rhowch deganau i'w ochr/i'w hochr dde.

3. Cariwch eich babi yn y safle hwn gyda'i ben/ ei phen wedi'i ogwyddo i'r chwith.



4. Pan fydd yn gorwedd ar ei ochr/ ei hochr i chwarae, rhowch gynnig ar ddefnyddio gobennydd siâp 'V' i roi pen eich babi'n syth.

5. Anogwch chwarae dan oruchwyliaeth wrth chwarae ar ei fol/ei bol, ond dylai eich babi gysgu ar ei gefn/ei chefn.

6. Wrth eistedd mewn sedd car neu gadair babanod, rhowch gynnig ar ddefnyddio tywel wedi'i rolio i gynnal gwddf y babi mewn safle mwy syth.

Os bydd unrhyw gwestiynau neu bryderon gennych, gofynnwch i'ch Ffisiotherapydd.

**Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English**